

# JONES, WILLIAM RICHARD ('Goleufryn'; 1840 - 1898), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd a llenor

**Enw:** William Richard Jones  
**Ffugenw:** Goleufryn  
**Dyddiad geni:** 1840  
**Dyddiad marw:** 1898  
**Priod:** Kate Jones (née Rowlands)  
**Rhiant:** Richard Jones  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd a llenor  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** Edward Morgan Humphreys

Ganwyd yn Llanfrothen, mab Richard Jones. Prentisiwyd ef yn saer coed a dilynodd yr alwedigaeth honno hyd 1865, pan ddechreuodd bregethu a mynd i ysgol Clynnog. Yn 1866 aeth i Goleg y Bala, ac yn 1869 cafodd alwad i fugeilio eglwysi T Mawr a Phenygraig, yn Llŷn. Ar ôl hynny bu'n bugeilio eglwysi Seion a Bethel, Llanrwst; Hyfrydle, Caergybi; ac Engedi, Caernarfon. Yr oedd yn bregethwr cymeradwy ac yn rhyddur pur flaenllaw yn ei gyfundeb, ond fel llenor y cofir amdano, ac yn enwedig fel awdur yr ysgrifau a ymddangosodd yn *Y Geninen*, gan ddechrau yn 1885, uwchben yr enw 'Siluriad.' Yn y rhai hynny beirniadodd rai agweddau ar fywyd crefyddol a chymdeithasol Cymru yn finïog, a bu cryn gynnwrf. Ysgrifennodd 'Goleufryn' lawer o bethau eraill, i'r *Gwyddoniadur* ac i newyddiaduron; yr oedd yn awdur esboniad ar Lyfr y Barnwyr, cyfrannodd i *Feibl y Teulu*, a chyhoeddodd gyfrol o storïau dirwestol dan y teitl *Cibroth-Hataafah*. Ym mis Hydref 1873 priododd Kate Rowlands, Penllwyn, Aberystwyth. Yn 1887 bu ef a'i briod ar daith yn yr Unol Daleithiau am rai misoedd, a phregethodd i lawer o gynulleidfaoedd Cymreig yn y wlad honno. Bu farw yng Nghaernarfon 11 Gorffennaf 1898, a chladdwyd ef ym mynwent Caeathro.

## Awdur

Edward Morgan Humphreys, (1882 - 1955)

## Ffynonellau

R. G. Owen ('Alafon'), *Gweithiau Llenyddol Goleufryn (detholion) gyda nodiadau coffaol am dano*, 1904

*Y Geninen*, Ionawr 1899, 18; Mawrth 1900, 30

*Y Traethodydd*, 1905, 129

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734702](https://www.wikidata.org/wiki/Q20734702)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.